DATGANIAD I'R WASG
I'w ddefnyddio'n syth
Chwefror 21 2018

Y Gororau a'r Canolbarth yn ymuno i greu gweledigaeth newydd ar gyfer cludo nwyddau

Gallai roi hwb o £149 miliwn i'r diwydiant cludo nwyddau

Yn Y Trallwng heddiw cyflwynwyd gweledigaeth newydd ar gyfer gwella'r diwydiant cludo nwyddau ar hyd a lled y Gororau a'r Canolbarth er mwyn hybu datblygu economaidd ac effeithlonrwydd, yn ogystal â sicrhau buddion ariannol gwerth £149 miliwn.

Partneriaeth Menter Lleol y Gororau a Phartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru a gomisiynodd y strategaeth newydd, ar y cyd â Llywodraeth Cymru, *Midlands Connect* a chynghorau o boptu'r ffin. Mae'n cynnwys argymhellion ar gyfer gwella pethau i fusnesau sy'n cludo nwyddau drwy'r rhanbarth, gwella bywydau pobl sy'n byw ar bwys ffyrdd allweddol o ran cludiant, a lleihau'r effaith ar yr amgylchedd. Cyflwynir opsiynau ar gyfer y ffyrdd a'r rheilffyrdd.

Os gweithredir y cynlluniau'n llawn, rhagwelir y gallai'r strategaeth ddod â buddion gwerth o leiaf £149 miliwn i weithredwyr cerbydau nwyddau trwm. Gellid gwneud hynny drwy weithredu cyfres o welliannau ar y priffyrdd gyda'r nod o greu mwy o gyfleoedd i oddiweddyd yn ddiogel, lliniaru ar dagfeydd ac ailwampio rhai mannau allweddol fel y gall cerbydau nwyddau trwm 44 tunnell gyrraedd pob rhan o'r rhwydwaith cludiant.

Lansio'r strategaeth yw uchafbwynt diweddaraf y bartneriaeth rhwng y naill ranbarth a'r llall, sydd wedi bod yn cydweithio ers 2016. Meddai Is-gadeirydd Partneriaeth Menter Lleol y Gororau, Paul Hinkins:

"Mae'n hawdd meddwl fod profiadau busnesau'r Gororau'n unigryw i ni, ond mae ein cymdogion yng nghanolbarth Cymru'n rhannu llawer iawn o'r un profiadau, yn ogystal â'r un cyfleoedd.

"Pan aethon ni ati'n gyntaf i ystyried sut allai'r Gororau a'r Canolbarth weithio'n agosach gyda'i gilydd, roedd gwella cysylltiadau trafnidiaeth ac atgyfnerthu cadwyni cyflenwi o boptu'r ffin ar frig yr agenda. Rydyn ni'n rhannu llawer o gysylltiadau allweddol ar y ffyrdd yn ogystal â seilwaith y rheilffyrdd sy'n bwysig iawn hefyd. Felly rydyn ni wedi edrych ymlaen yn arw at y diwrnod hwn a lansio'r strategaeth.

"A ninnau wedi gwneud cymaint o waith ar hyn, rydyn ni'n gobeithio medru dylanwadu ar Lywodraeth Cymru a'r Llywodraeth yn Llundain gan edrych ymlaen at weld ffyrdd mwy effeithlon o symud nwyddau, llai o gostau i fusnesau a llai o effeithiau negyddol ar bobl a'r amgylchedd."

Issued by: Be Bold Public Relations www.beboldpr.com
Tel: 01952 898121 | Fax: 01952 897851 | E: hello@beboldpr.com

Gan mai proses gydweithredol oedd hon, bu'r gwaith o gomisiynu a datblygu'r strategaeth yn nwylo grŵp llywio oedd yn cynnwys swyddogion o'r naill ochr i'r ffin. Dywedodd Ellen ap Gwynn, Cadeirydd Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru:

"P'un a ydyn ni'n ystyried rhwydwaith o ffyrdd sy'n rhai un ffrwd yn bennaf, ac effaith hynny ar hyd pob taith a dibynadwyedd; yr effaith y mae cerbydau amaethyddol yn ei gael ar y rhwydwaith; neu'r tagfeydd mawr sy'n digwydd mewn llawer o'n trefi a'n pentrefi ni, mae'r darlun yn un go debyg ar y ddwy ochr o'r ffin. Yn syml iawn, mae cysylltiadau da ar y ffyrdd a'r rheilffyrdd yn hanfodol i'n busnesau ni, a hefyd o ran twf yn y dyfodol ar hyd a lled y Canolbarth a'r Gororau.

"Roedd hi'n gwneud perffaith synnwyr, felly, i weithio ar y cyd ar y strategaeth hon, gan ymgynghori â busnesau megis cwmnïau cludo nwyddau a'n cymunedau lleol i feithrin gwell dealltwriaeth o'r hyn sy'n rhwystro twf economaidd yn y ddwy ardal, a'r ffyrdd y gallwn gydweithio i oresgyn y rhwystrau hynny."

Ychwanegodd Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru dros yr Economi a Thrafnidiaeth, Ken Skates AC: *"Mae'n hanfodol inni sicrhau dulliau effeithlon o symud nwyddau a lliniaru ar unrhyw effeithiau negyddol ar bobl a'r amgylchedd os ydyn ni am weld llewyrch economaidd a chreu cysylltiadau rhwng Cymru a gweddill y byd. Rwy'n falch bod Llywodraeth Cymru wedi medru cyd-ariannu'r Strategaeth Gludiant hon a chefnogi Partneriaeth Menter Lleol y Gororau a Phartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru wrth iddynt fwrw iddi â'r gwaith.*

"Mae'n iawn fod y Strategaeth yn amlygu mor bwysig yw'r rhwydwaith drafnidiaeth o ran llwyddiant busnesau, a byddaf yn dal i weithio i ddod o hyd i gyfleoedd i hybu'r twf economaidd yr ydym yn dyheu amdano."

Yn ystod y drefn ymgynghori cafwyd cyfraniadau gan amrywiaeth helaeth o fusnesau a chynghorau lleol drwy arolygon ar-lein, gweithdai i fusnesau yn Llwydlo a'r Drenewydd, a chyfweliadau dros y ffôn â chyflenwyr nwyddau, cwmnïau cludiant ffyrdd, rheolwyr seilwaith a gwneuthurwyr polisïau.

Ychwanegodd Chris Rowland o MDS Transmodal, yr ymgynghorwyr sy'n arbenigo mewn cludo nwyddau ac a fu'n gyfrifol am reoli'r drefn ymgynghori a'r gwaith o ddatblygu'r Strategaeth Gludiant:

"Mae'r patrymau o ran cludo nwyddau yn y Gororau a'r Canolbarth yn wasgaredig iawn, mae'r ddwy ardal yn dibynnu'n helaeth ar rwydwaith o ffyrdd unffrwd, ac yn eithaf tebyg yn economaidd ac yn ddaearyddol, ac felly mae'n gwneud synnwyr i gael strategaeth sy'n pontio'r ffin.

"Drwy gynnwys amrywiaeth helaeth o randdeiliaid allweddol rydyn ni wedi sicrhau fod hon yn weledigaeth gadarn a phositif ar gyfer y dyfodol."

Mae Alun Jones yn berchen ar fusnes cludiant ffyrdd mawr yn Y Trallwng. Meddai:

"Roedd hi'n bleser mawr inni groesawu llawer o'r swyddogion i'n depo yma yn Y Trallwng, a ninnau mor awyddus i gymryd rhan yn y digwyddiad pwysig hwn. Wrth weithio ar lawr

gwlad ar hyd a lled Cymru yn y diwydiant cludiant ffyrdd rydyn ni'n medru deall yn iawn yr effaith bositif y byddai mabwysiadu'r strategaeth hon yn ei gael o ran helpu busnesau yn y rhanbarth i dyfu a bod yn fwy cystadleuol."

Gellir gweld copi llawn o Strategaeth Cludo Nwyddau'r Gororau a'r Canolbarth drwy fynd i: https://www.marcheslep.org.uk/download/Reports/reports/Marches-and-Mid-Wales-Freight-Strategy.pdf

O'r chwith i'r dde: (1) Y Cynghorydd Phillip Price, Cyngor Swydd Henffordd (2) Alun Jones o gwmni T. Alun Jones Cyf (3) Paul Hinkins, Is-gadeirydd Partneriaeth Menter Lleol Y Gororau (4) Y Cynghorydd Ellen ap Gwynn, Cadeirydd Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru ac Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion (5) Rhodri Griffiths, Prif Swyddog Rhanbarthol Llywodraeth Cymru ar gyfer Canolbarth a De-orllewin Cymru (6) Rosemarie Harris, Is-gadeirydd Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru ac Arweinydd Cyngor Sir Powys.

DIWEDD